

# Cylchlythyr Ffes 3: Ebrill 2022



## Wythnos Lles

Cawsom wythnos brysur iawn ar y Brif Safle yn ystod ein 'Wythnos Lles'. Roedd yn gyfle i'r disgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol i'r arfer a oedd yn ffocysu ar eu lles. Cawsom weithdai dawns a cherddoriaeth, gweithdy clai gydag artistiaid lleol, teithiau cerdded, gweithgareddau adeiladu tim a chwaraeon. Pawb wedi mwynhau!

## Sioe 'Ynys Alys'

Cafodd aelodau o flwyddyn 9 a blwyddyn 10 daith bleserus iawn i'r Galeri yng Nghaernarfon i wyllo cynhyrchiad Cwmni'r Fran Wen o Ynys Alys. Roedd yn gyflwyniad bywiog gyda chymysgedd o bop a rap yn dilyn hanes merch ifanc yn chwilio am ei hannibyniaeth. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad o fod mewn theatr yn gwyllo cynhyrchiad byw wedi'r holl amser o fethu gwneud hynny oherwydd Cofid.

## Cyngor Ysgol Ffes 3

Diolch i'r Cyngor ysgol Ffes 3 am drefnu dau ddiwrnod arbennig tymor yma sef Dydd Gŵyl Ddewi a Diwrnod y Llyfr. Cawsom wisgo coch neu wisg Gymreig draddodiadol, gwisgo cennin pedr, a chael stensil draig goch i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Yna cafodd disgyblion iau yr ysgol yn ogystal ag athrawon gyfle i wisgo fel eu hoff gymeriad ar Ddiwrnod y Llyfr.


## Llwyddiant Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i'r Parti Merched Blwyddyn 7-9, Côr Blwyddyn 7-9 a'r criw Ymgom Blwyddyn 7-9 a enillodd yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Fe fyddan nhw'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mai. Llongyfarchiadau hefyd i Magi Non a ddaeth yn gyntaf ar yr Unawd Piano Blwyddyn 7-9.

## Diwrnod trwynau coch

Casglwyd £385.65 eleni. Diolch i bawb!

## Cefnogi Wcrain



Mae disgyblion pob safle Ysgol Bro Idris wedi dangos eu cefnogaeth i Wcrain trwy ffotograffu eu dwylo mewn siâp calon. Dyma'r darn gorffenedig. Yn ogystal, cawsom nifer helaeth o roddion caredig tuag at ein casgliad ar gyfer Wcrain. Diolch i bawb.

## Cogurdd

Mae grwp o ddisgyblion Ffes 3 wedi bod yn brysur yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Cogurdd. Blwyddyn 10 oedd gyntaf i goginio saig ar thema 'dathlu'. Diolch yn fawr i Mr Dylan Rowlands (Gwin Dylanwad Da) am feirniadu. Dyma'r canlyniadau:

1af Harrison Harrison  
2il Georgie Parker  
3ydd Chloe Wright



## Gwaith Celf

Dyma'r criw o ddisgyblion 9A aeth ati yn ystod rhai o'u sesiynau



cofrestru i greu ceffyl ar gyfer yr elusen leol Merlota Arbennig Meirionnydd.

## Coleg Meirion Dwyfor

Bu Alison Owen a Bryn Hughes Parry i'r ysgol yn ystod y tymor yma i gyflwyno gwybodaeth a chefnogi disgyblion Ffes 3. Cafodd disgyblion Blwyddyn 9 gyflwyniad ar yr ystod eang o bynciau dewis mae'r coleg yn cynnig, a cafodd disgyblion blwyddyn 11 gyflwyniad ar sut i wneud cais coleg.

## Chwaraeon Rygbi

Llongyfarchiadau i Ifan Davies am gael ei ddewis fel capten RGC y De.

Mae bechgyn a merched

blwyddyn 9 wedi cystadlu mewn twrnament RGC yng Nghlwb Rygbi Bala yn ystod y tymor hwn. Bydd tymor prysur arall ar ôl gwyliau'r Pasg gyda nifer o gemau a thwrnament 7 pob ochr.



## Traws Gwlad

Dyma lun o'r ddau sydd wedi serenu yn y cylch Eryri o Draws Gwlad. Bu i Elis Williams BI11 ddod yn 13eg yn ei ras, gan fethu allan yn y ras Genedlaethol o 2 safle. Bu i Nel Williams BI7 ddod yn 15fed yn ei ras hi. Daeth Jim Tookey yn 20fed ar ol rhedeg ras agos iawn o fewn ei oedran.



## Gweithdai Ffes 3

### Gweithdy Shakespeare


Yn ddiweddar, bu Tom Davey yn yr ysgol yn cynnal gweithdy Shakespeare efo disgyblion Ffes 3. Cafodd y disgyblion gyfle i ymglyfarwyddo efo rhai o ddramau Shakespeare a chyfle i'w actio.

### Gweithdy Technocamps

Mae blwyddyn 9 wedi bod yn rhan o weithdai Technocamps yn ddiweddar a oedd yn cynnwys 'Lego Robotics' a 'Code Breakers'.

## Taith Sgio

Croeso nol i'r criw a fu ar daith sgïo i Andora yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i Mrs Owain a drefnodd y daith o dan amgylchiadau heriol iawn ac i'r staff a aeth ar y daith gyda'r disgyblion. Cafodd pawb amser arbennig!



## Dyddiadau Pwysig:

Dyddiad:	Gweithgaredd:
25 + 26/4/22	Arholiad TGAU Celf (BI 11)
12/5/22	Sesiwn Blasu Coleg Meirion Dwyfor (BI 9)
13/5/22	HMS (dim ysgol i ddisgyblion)
16/5/22	Arholiadau TGAU yn cychwyn
27/5/22	Hanner Tymor
11/7/22	Wythnos Gweithgareddau (BI 9) + Profiad Gwaith (BI 10)
15/7/22	Gwyliau'r Haf

## Pwyntiau Cyswllt Ffês 3

Mewn cyfnod mor anodd a digynsail, cofiwch ein bod yma i gefnogi pob rhiant a disgybl. Os ydych yn awyddus i drafod unrhyw fater mae croeso i chi gysylltu gyda ni.

**Pennaeth Cynorthwyol Ffês 3**  
**Miss Melanie Cooper**

**Anogwr Dysgu Safonau a Lles Ffês 3**  
**Mrs Awel Davies**